



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@anglesey.gov.uk

Pennaeth Mewn Gofal / *Acting Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



1/3/17

Annwyl Rieni,

Ar gais yr ysgol yn ddiweddar, fe wnaethpwyd archwiliad lechyd a Diogelwch ar y cyd gyda Delyth Davies, Swyddog lechyd a Diogelwch y Cyngor; Enid Christie, Swyddog Addysg; Mr Dafydd Roberts, Llywodraethwr a'r Pennaeth ar fynediad i'r ysgol yn y boreau a diogelwch ar yr iard a'r maes parcio. Yn dilyn hynny, lluniwyd asesiad risg yn seiliedig ar yr archwiliad sy'n arwain at gymhwyso rheolau a threfniadau newydd yn y boreau. Bydd y rheolau a'r trefniadau hyn yn dod i rym ddydd Llun nesaf, Mawrth 6ed ac fe fyddant mewn lle hyd nes y bydd yr Awdurdod yn ymestyn y maes parcio fel rhan o foderneiddio'r ysgol.

Mae'n **hanfodol** fod pob un rhiant/gofalwr yn cadw at y rheolau yma ac yn parchu y trefniadau newydd er lles a diogelwch pob un plentyn.

## **Clwb Gofal Cyn-ysgol / Clwb Brecwast**

Rydych eisioes yn ymwybodol o'r trefniadau a'r amseroedd. Rhaid cadw at yr amseroedd yma.

Cynhelir y **clwb gofal cyn-ysgol rhwng 7.50am a 8.15am**.

Os ydych yn dymuno manteisio ar y **Clwb Brecwast**, yna mae'r clwb yn cychwyn am **8.15am** a bydd brecwast yn cael ei weini hyd at **8.30am** - **NI dderbynnir plant i'r clwb wedi'r amser yma.**

Rhaid defnyddio'r drws newydd yng nghefn y neuadd ar gyfer mynediad i'r clybiau yma a gollwng y plant gyda'r goruchwyliwr wrth y drws.

## **Trefniadau gollwng plant i'r ysgol yn y boreau**

Os nad yw eich plentyn yn y Clwb Brecwast erbyn 8.30am, **NI fydd mynediad i'r ysgol na goruchwyliaeth cyn 8.40am.**

Am **8.40am** bydd staff yn goruchwyllo ar yr iard a bydd aelodau o staff wrth y ddwy giât ym mlaen yr ysgol (un ger y drws ffrynt a'r llall sydd ochr y pentref) i dderbyn y plant. **Disgwylir i'r rhieni ollwng y plant wrth y giâtiau** ac fe wnaiff y staff ar yr iard eu hebrwng i gadw eu bagiau os oes rhaid. Caniateir i rieni y **plant Meithrin yn unig** hebrwng eu plant at ddrws y dosbarth – ni fydd mynediad i'r ysgol. Ar adegau pan fydd hi yn bwrw glaw yn drwm bydd modd i'r plant gael mynediad drwy y drws yng nghefn y neuadd

Bydd hyn oll yn sicrhau fod y dagfa traffig sydd yn y maes parcio yn y boreau yn cael ei liniaru wrth i rieni symud at y drefn o "ollwng a mynd" gan sicrhau fod y maes parcio ychydig yn fwy diogel.

Anogwn y plant sydd yn cerdded i'r ysgol o'r pentref ddefnyddio y giât agosaf i'r pentref (tu ôl i'r banc papur). Bydd y giât mochyn yn parhau i fod ar glo.

Os oes ganddoch negeseuon i'w rhannu â'r athrawon, yna gofynnwn i chi rannu'r negeseuon gyda'r staff wrth y giât neu gyda'r ysgrifenyddes yn y dderbynfa. Bydd y negeseuon yma yn cael eu cofnodi.

Bydd croeso i chwi drefnu i drafod unrhyw bryderon gyda'r athrawon unrhyw dro. Hefyd, cofiwch y gallwch barhau i weld y Pennaeth ar unrhyw adeg drwy ddod at y dderbynfa i weld os yw ar gael.

## **Parcio**

Bydd dau fae parcio anabl ar gael o hyn allan. Mae un bae yn cael defnydd cyson gan blentyn mewn cadair olwyn. Wrth gwrs mae gennych hawl i barcio ar ochr y ffordd y tu allan i'r maes parcio, ond gofynnwn yn garedig i chi beidio a rhwystro dreif y tai dros ffordd i'r ysgol yn dilyn cwynion diweddar.

Hyderwn y byddwn yn derbyn eich cydweithrediad lawn ar y mater hwn gan y tybiwn fod iechyd a diogelwch pob un plentyn o eithriadol bwys i chwi oll. Heb os, bydd Ysgol Parc y Bont yn parhau i fod yr mor groesawgar i chwi fel rhieni.

Yn gywir,

***Gethin Morgan***  
(Cadeirydd y Llywodraethwyr)

***Iwan W Taylor***  
(Pennaeth)